## ELWYN LEWIS JONES a champ y gof

# BRAWD MAWR HYWEL HARRIS

CYMAINT fu'r bri yng Nghymru ar glodfori campau'r brawd ieuengaf fel yr esgeuluswyd y brawd hynaf bron yn llwyr. Sôn yr wyf am Joseph Harris, yr hynaf o blant Howel a Susannah Harris o 'Drefeca Fach', Howel (yr un enw a'i dad) oedd yr ieuengaf, ac ef oedd diwygiwr tanllyd y cyffro crefyddol mawr yn 1735.

Ond roedd brodyr eraill hefyd, Joseph a Tomos, y ddau ohonynt yn ddynion sylweddol eu hunain; Tomos yn ddafad ddu'r teulu, yn ddi-les, yn ddiotwr, yn ferchetwr ac yn 'entrepeneur' amheus wrth wneud a gwerthu dillad yn y ddinas ac ar draws y wlad.

Dychwelodd i Gymru ymhen talm i fod yn sgweier ardal Trefeca ac yn siryf Brycheiniog. Soniais amdano eisoes yng nghyswllt fy ysgrif yn rhifyn mis Mawrth o'r Casglwr "Pwy oedd y Mrs Robinson yna?"

Beth am y brawd hynaf, felly, y brawd a esgeuluswyd gan ei genedl? Cysgod ei 'frawd bach' oedd yn bennaf gyfrifol am ei guddio, mae'n bur sicr. Magwyd y tri brawd, a chwaer hefyd, ar aelwyd 'Trefeca Fach', a theulu anghyffredin oeddynt.

Prin yw'r sôn am Anne yn llythyron y brodyr i'w gilydd ac at eu rhieni. Bu hi farw pan oedd tua pymtheg oed a rhaid i'r claddu brofi'n groes drom ar y rhieni am flynyddoedd er dyfned eu ffydd. Gan iddi fod yn agos i Joseph o ran oed, ac oherwydd ei ddwyster ef, mae'n o debyg i'r golled bwyso'n drymach ar ei ysbryd ef nag ar un o'i frodyr.

Rhy ifanc oedd Hywel (wyth oed) i'r digwyddiad olygu llawer iddo, a Tomos yn debyg o fod yn arwynebol. Hawdd synio hefyd i'r tristwch gyfrannu rywfaint at agwedd feirniadol Joseph at yr hyn a dybiai oedd diffyg synnwyr ei frawd ieuengaf.

* * *

ROEDD Joseph Harris yn ŵr unigryw. Dangosodd duedd, onid athrylith, fathemategol yn gynnar yn ei fywyd, dawn nid anhebyg efallai i'r athrylith a geir weithiau mewn 'prodigies' ifanc ymhob oes.

Roedd ganddo hefyd ddiddordeb ysol yn y sêr a'r planedau yn eu perthynas â'r ddaear, ac aml y gwnâi offer bychain i'w gynorthwyo i fesur pellterau a maint y bydoedd nefol. Gwnâi'r modelau hyn yng ngweithdy cyfagos ei ewyrth Tomos Powel lle bwriodd ei brentisiaeth fel gof.

Eithr rhy amrwd oedd gêr yr efail i'w ddiddordeb personol ef. Roedd galw am gywirdeb anarferol i wneud cyfiawnder â'r goleuadau bychain a welai mor aml ar nosweithiau golau yn Nhrefeca.

A dyna ran o'i gyfrinach, mae'n sicr. Unigrwydd Trefeca Fach yng nghesail Mynyddoedd Du Sir Frycheiniog, ac yn arbennig tawelwch ysblennydd Mynydd Troed, ni allent lai na dylanwadu ar fachgen myfyrgar a dwys, ac un disglair at hynny.

Hawdd ei ddychmygu'n cerdded ambell fin nos olau-leuad ar ei ben ei hun i gopa'r mynydd nad oedd nepell o ddrws ei gartre; crwydro i syllu a rhyfeddu wrth y llu nefol a gofyn iddo'i hun mewn cymysgedd o amheuaeth a pharchedig ofn "Pa beth yw dyn i ti ei gofio?"

Mae tystiolaeth iddo'n ddiweddarach dueddu at Sosiniaeth ei bennaeth cyntaf, Hopton Haynes. Nid gormod chwaith yw synio i'w brofiad o ddulliau addoli syml llwythau Indiaid Vera Cruz beri iddo fyfyrio llawer ynghylch ei gredo'i hun.

Blinodd o'r diwedd ar ei waith gof. Roedd am wneud rhywbeth mwy sylweddol, roedd am 'gyrraedd'. Ni fedrai ewythr Powel ddysgu dim pellach i'w nai anghyffredin. Roedd yn ddarllenwr brwd, er mae'n o debyg taw'r unig lyfrau yn y cartre fyddai'r *Beibl, Taith y Pererin* a *Holl Dyletswydd Dyn.* Ymhle felly y cafodd afael ar lyfrau mathemategol a seryddol? Rhaid bod rhywun anhysbys wedi ei helpu.

Ganwyd ef yn 1704 ac roedd yn prifio ac aeddfedu'n gyflym. Syrthiodd mewn cariad â merch tua'r un oed ag yntau, Anne Jones o fferm Tredwstan, yn union 'rochor draw i'r afon. ('Anne' arall eto! rhyfedd cael pump neu chwech o'r un enw yn yr un teulu).

Eithr uchelwr oedd Tomos Jones ei thad, a rhieni Joseph yn sicr o fod wedi ei rybuddio yn erbyn rhoi ei fryd ar ferch uchel y plas. Dyfalwn i Thomas Jones ddyfeisio ffordd i brofi, neu, ynteu, i derfynu'r garwriaeth ifanc. Gyda help Roger Jones yr aelod seneddol hyrwyddodd fynediad Joseph i Lundain. Wedi'r cyfan roedd llygad Tomos Jones ar beth uchel. Roedd am ddod yn siryf, a go brin yr awchai weld ei ferch yn briod â gof bach tlawd o Drefeca.

* * *

CAFODD Joseph swydd bron ar unwaith yn siop a gweithdy un o gontractwyr y Llynges. Bu wrthi'n gwneud offer i gynorthwyo hwylio llongau'n ddiogel, a daeth hyd yn oed i adnabyddiaeth buan o Syr Edmund Halley, seryddwr enwocaf y cyfnod. Anogodd hwnnw ef i ennill mwy o brofiad, mentro i'r môr a phellteroedd y gorllewin i brofi cywirdeb ei offer.

A hwylio a wnaeth, am ddwy flynedd. Mentrodd ddwywaith mewn llong fechan i India'r Gorllewin ond prin, poenus o brin, yw'r hanes amdano yn ystod y ddwy flynedd hynny. Ymwelodd â Vera Cruz a Jamaica ac mae dyn yn cael ei hun yn byta'i winedd wrth grafu am fwy o wybodaeth na'r briwsion a geir yn ei lythyron at ei rieni.

Dychwelodd i Lundain ac yn fuan cafodd swydd eto, ond y tro yma yn y Bathdy (The Mint).

Maes o law daeth yn olynydd i Hopton Haynes ar adran bwysig yno a datblygu'n ŵr o bwys a chymharol gyfoethog. Dychwelodd i edrych am ei Anne o Dredwstan ac, os byddai angen, i herio'i Ysbaddaden Bencawr. Ond roedd Thomas Jones wedi marw.

Priododd ag Anne Jones a symudodd y ddau 'nôl i Lundain i fwrw blynyddoedd sylweddol o'u bywyd gan fyw mewn dau dŷ, un yn y Bathdy a'r llall tu allan i'r ddinas, 'Place House'. Ysgrifennodd lyfrau sylweddol* a gwnaeth gryn enw iddo'i hun. Ganwyd i'r ddau un ferch, Anna Maria tua 1746.

Bu farw Haris a'i briod o fewn blwyddyn i'w gilydd yn 1763 a 1764, y ddau yn drigain oed. Amlyga'i lythyrau at Howel faint ei ing o golli ei wraig a chawn hefyd lythyrau dwys gan Anna Maria at ei hewyrth yn disgrifio'i hadwaith hithau i'w chollediion creithiol ac annisgwyl. Roedd hi'n ddeunaw oed, ar ei phen ei hun yn nieithrwch y ddinas, ac ymhlith Saeson digon amheus, onid llwgr.

* * *

Y DDWY farwolaeth yn annisgwyl, ac mor agos i'w gilydd! Mae rhywun yn cael ei hun yn ferw o gwestiynau! A oedd mab dwys Trefeca wedi llwyddo mewn gwirionedd i gydfyw'n ddedwydd â Saeson estronaidd o fewn trefn a oedd bryd hynny mae'n debyg yn ymylu ar lygredd?

Ni ddyrchafwyd ef fyth i swydd uwch, serch i'r awdurdodau wybod yn iawn am ei alluoedd. Ffefrynau'r brenin neu swyddogion y llys fyddai'n derbyn y swyddi uchaf a'u hunig gymhwyster oedd eu bod yn derbyn gwenau a nawdd am gymwynasau amheus. "Assay Master" oedd ei deitl hyd ddiwedd ei oes, y swyddog oedd yn gyfrifol am dderbyn trysorau gwerthfawr o India'r Gorllewin a gwledydd eraill diamddiffyn ar draws y byd.

Arno ef y disgynnai'r cyfrifoldeb o doddi'r metalau a bwrw arian ac aur newydd a chreu bathodynnau a thlysau at achlysuron arbennig. Derbyniodd bensiwn gan y brenin i chwyddo tipyn ar ei gyflog, ond nid oes sôn i neb awgrymu ei wobrwyo mewn unrhyw ffordd arall.

Ei ferch, Anna Maria, fuasai'r person cymhwysaf i ddweud yr hanes am ei thad a'i frodyr, pe buasai ganddi'r ddyfais a'r ewyllys i wneud hynny. Fe ddychwelodd hi i Dredwstan yn gyntaf ac yna etifeddodd blasty ei hewyrth Tomos, Tregwnter. Aeth i fyw yn y diwedd i Aberhonddu, yn wraig i siryf diweddarach ac yn fam i do newydd a niferus o Harrisiaid dylanwadol . . . ond stori arall yw honno.

**Gweithiau Joseph Harris*
*"The Description & Use of the Globes" (1730)*
*"A Treatise of Navigation" (7131)*
*"An Essay Upon Money and Coins" (1757)*
*"A Treatise of Optics" (Cyh. 1775 wedi ei farw).*

*YN EISIAU*

*History of Powys Fadog, Cyf 1, 1881, J.Y.W. Lloyd.*

*Ray Masters, 34 Bryn Awelon, Bwcle, Clwyd CH7 2QB.*